



Cymru Wales



Mabon ap Gwynfor AS

Gweinidog y Cabinet dros Iechyd a Gofal
Lywodraeth Cymru
Anfonwyd drwy e-bost.

Ein cyf: LW

22 Mehefin 2026

Cynrychiolwyr staff Gofal, Iechyd a Chleifion yn galw am gamau brys ar ofal mewn coridor

Annwyl Weinidog Cabinet

Rydym yn ysgrifennu ar ran sefydliadau ledled Cymru sy'n cynrychioli clinigwyr, cleifion a gofalwyr mewn perthynas â gofal mewn coridor a'r angen am gamau brys.

Ym mis Mawrth eleni, [mabwysiadodd GIG Lloegr ddiffiniad ffurfiol o ofal mewn coridor ac, o fis Mehefin, dechreuodd gyhoeddi data cenedlaethol ar ei raddfa a'i amledd](#). Mae hyn yn adlewyrchu cydnabyddiaeth gynyddol ynghylch y ffaith na all gofal diogel gael ei ddarparu mewn coridorau, ystafelloedd aros na mannau anghlinigol eraill, ac mae'n ymateb i bryderon a godwyd ledled y DU ers amser maith. Mae cynnydd o ran cydnabod y mater yn cael ei groesawu.

Yng Nghymru, fodd bynnag, nid oes diffiniad cyhoeddedig o ofal mewn coridor ac nid oes ffordd reolaidd, dryloyw o adrodd data. O'r herwydd, nid oes ffordd gyson o fonitro risgiau i

ddiogelwch cleifion, deall tueddiadau nac asesu effaith ymyriadau. Mae hyn hefyd yn peryglu creu anghysondeb ledled Cymru o ran sut y caiff gofal mewn coridor ei nodi a'r ffordd o fynd i'r afael ag ef.

Fe fyddwch yn ymwybodol drwy ymgyrchu cyhoeddus, sy'n cynnwys 'y ddeiseb Senedd ar y cyd gan BMA Cymru Wales ac RCN Cymru syn galw i roi diwedd ar ofal mewn coridor <https://busnes.senedd.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?Ild=46699&Opt=0>, bod yr arfer hon bellach yn cael ei normaleiddio. Mae cleifion ar hyn o bryd yn cael gofal ar droliau neu gadeiriau am oriau maith, neu am ddiwrnodau yn aml, mewn poen ac yn dioddef. Mae meddygon, nyrsys, a staff gofal iechyd yn cael eu gorfodi i drin a gofalu am gleifion mewn coridorau, meysydd parcio, ac mewn lleoedd eraill lle nad yw gofal diogel, urddasol yn bosibl a lle nad oes ganddynt fynediad at gyfarpar achub bywyd. Mae tystiolaeth gan y Coleg Brenhinol Meddygaeth Argyfwng yn dangos bod gofal mewn coridor yn digwydd ym mhob adran frys yng Nghymru, ac mae lefelau anniogel o orboblogi a chleifion yn cael eu trin mewn amgylcheddau sy'n hollol anaddas.

Mae hyn yn cael effaith anghymesur ar y rhai sydd dan y risg mwyaf. Mae pobl hŷn sy'n byw ag eiddilwch, cleifion sy'n cyrraedd diwedd oes, pobl mewn argyfwng iechyd meddwl, sy'n cynnwys plant a phobl ifanc, a'r rhai â chyflyrau cymhleth neu niferus yn profi'r effeithiau yn enwedig. Ar gyfer y grwpiau hyn, mae gofal mewn coridor yn anurddasol ond hefyd yn creu risgiau difrifol na ellir eu hosgoi i ddiogelwch a chanlyniadau.

Ar yr un pryd, mae staff yn gweithio mewn amodau annioddefol, ac yn methu â darparu'r safon gofal y maent wedi'u hyfforddi i'w ddarparu. Mae hyn yn gosod pwysau na ellir ei gynnal ar y gweithlu ac mae'n tanseilio ysbryd a chyfraddau cadw.

Rydym yn credu bod camau brys ar draws y system bellach eu hangen ledled Cymru. Mae hyn yn cynnwys camau y gellir eu cymryd ar frys ar lefel genedlaethol a lleol, camau i chwalo rhwystrau diangen rhwng iechyd a gofal sy'n gohirio llif cleifion, a dull amlddisgyblaethol system gyfan i reoli galw a gallu.

Cyn toriad yr haf, rydym yn gofyn i chi wneud ymrwymiad clir, cyhoeddus i'r pethau hyn:

1. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi diffiniad cenedlaethol o ofal mewn coridor i GIG Cymru ac yn dechrau cyhoeddi data Cymru gyfan sy'n addas i'w ddiben ar unwaith.
2. Caiff gofal mewn coridor ei fonitro fel dangosydd o ddiogelwch cleifion o fewn trefniadau perfformiad GIG Cymru a'i adrodd yn rheolaidd i gyrff llywodraethu byrddau iechyd fel rhan o fframwaith safonol o ddangosyddion i nodi, monitro ac adrodd achosion o ddiogelwch cleifion sy'n gysylltiedig â gofal mewn coridor ledled GIG Cymru.
3. Bydd byrddau iechyd yn datblygu cynlluniau lleol ar unwaith, ac yn eu rhoi ar waith, i leihau a chael gwared ar ofal mewn coridor, gyda phwyslais clir ar warchod y cleifion mwyaf bregus.
4. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r sefydliadau sy'n cyd-lofnodi'r llythyr hwn i fwrw ymlaen â dull cydgysylltiedig, system gyfan o roi diwedd ar ofal mewn coridor. Dylai hyn gynnwys adolygu capasiti ar draws GIG Cymru, chwalo rhwystrau system,

mabwysiadu dull tîm amlddisgyblaethol cyfan a chyflwyno cynllun gweithlu clir gyda rhestr gostau sy'n cael ei ategu gan fuddsoddi mewn iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae cael gwared ar ofal mewn coridor yn bosibl. Rydym wedi gweld enghreifftiau o hyn yn y Deyrnas Unedig yn [Ysbytai Addysgu Gorllewin Hertfordshire Ymddiriedolaeth GIG](#), lle'r oedd y tîm arwain yn gwrthod derbyn gofal mewn coridor fel y drefn arferol. Mae hyn ynghylch sicrhau gofal diogel, urddasol a chydradd i bobl ledled Cymru, a chefnogi staff sy'n gweithio mewn amgylchiadau hynod o anodd.

Mae rhoi'r diwedd ar ofal mewn coridor yn hanfodol. Byddem ni oll wrth ein bodd yn cael y cyfle i gwrdd ac ymgysylltu â chi a chynrychiolwyr GIG Cymru i drafod hyn ymhellach, ac i greu fforwm priodol lle y gallwn ni oll gydweithio i gefnogi'r gwaith o ddatblygu dull cenedlaethol a diffiniad sy'n cydnabod ac yn mynd i'r afael â'n pryderon.

Yn gywir



Cymru Wales

Dr Iona Collins

Cadeirydd

Cyngor BMA Cymru



Nicola Williams RGN, MSc

Cyfarwyddwr Gweithredol

RCN Cymru



Rob Simkins

Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus (Cymru)

Gofalwyr Cymru



Vicki Lloyd

Prif Weithredwr

Age Cymru



Eich llais mewn iechyd
a gofal cymdeithasol | Your voice in health
and social care

Alyson Thomas

Prif Weithredwr

Llais



Jon Antoniazzi

Cyfarwyddwr Cyswllt Polisi a Materion
Cyhoeddus (Cymru)

Marie Curie Cymru



Coleg Brenhinol
y Meddygon (Cymru)

Dr Ben Thomas a'r Prifathro Sam Rice

Cyd Is-lwyddion ar gyfer Cymru

Coleg Brenhinol y Meddygon



Iwan Hughes

Pennaeth Materion Allanol

Coleg Brenhinol Fferylliaeth



Dr Rob Perry

Is-lywydd

RCEM Cymru